| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **29 Mai 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Mesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd - Gorchymyn Drafft arfaethedig Rheoliadau Strategaethau Iechyd a Lles (Cymru)** |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn gyfle i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer Strategaethau Iechyd a Lles.

**Cefndir**

2. Ymddangosodd y model ar gyfer Strategaethau Iechyd a Lles yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun ar gyfer y GIG a'i Bartneriaid' a lansiwyd ym mis Chwefror 2001. Ymrwymodd y Cynllun i sefydlu Partneriaeth Strategol ar gyfer Iechyd a Lles o fewn pob ardal awdurdod lleol a fyddai'n galluogi cyfarwyddyd cadarn o'r lefelau uchaf yn y GIG a llywodraeth leol. Byddai'r Bartneriaeth Strategol yn gyfrifol am roi cyfarwyddyd o ran gweithio ar y cyd ar draws holl ystod gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol ac yn gyfrifol am neilltuo adnoddau ar gyfer hynny.

3. Fel rhan o Raglen Gweithredu Cynllun GIG, sefydlwyd y Grp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd a oedd yn cynnwys aelodaeth eang o'r GIG, llywodraeth leol, sectorau gwirfoddol ac annibynnol a gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd. Roedd cylch gorchwyl y Grp yn cynnwys datblygu model Partneriaethau Strategol ar gyfer Iechyd a Lles a chanolbwyntiodd y drafodaeth yn y tri chyfarfod cyntaf i raddau helaeth ar hyn. Argymhellodd y Grp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd fodel i mi ar gyfer gweithredu Partneriaethau Iechyd a Lles.

4. Roedd y model a argymhellwyd yn sail i gyfarwyddiadau drafftio seneddol ar gyfer cymal 22 o Fesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd. Mae'r cymal yn cynnwys darpariaethau a fydd yn rhoi dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi'i ffurfio o'r newydd a phob awdurdod lleol i lunio a gweithredu ar y cyd Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer yr ardal. Pasiodd y Mesur drwy'r Pwyllgor yn ddiweddar, a disgwylir camau'r Adroddiad yn Nh'r Arglwyddi, a Chydsyniad y Frenhines yn ystod yr haf.

**Cynnwys y Rheoliadau**

5. Mae'r rheoliadau yn cynnwys ystod eang o ddarpariaethau gyda golwg ar lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Mae'r rheoliadau'n diffinio:

- y camau sy'n rhaid i gyrff cyfrifol eu cymryd cyn llunio strategaeth
- dyletswydd i gydweithio â chyrff penodedig
- materion y mae'n rhaid i'r strategaeth ymdrin â hwy
- cyhoeddi'r strategaeth ddrafft ac ymgynghori arni
- dyddiad ar gyfer mabwysiadu'r strategaeth, y cyfnod gweithredol a'r adolygiad
- cyhoeddi ac adrodd yn ôl
- cysoni strategaethau gyda strategaethau neu gynlluniau penodedig eraill

6. Yn ei hanfod, bydd y rheoliadau yn rhoi dyletswydd ar bob bwrdd iechyd lleol a grewyd o'r newydd ac ar bob awdurdod lleol i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles o 1 Ebrill 2003. Mae hyn yn golygu y bydd y Strategaethau Iechyd a Lles cyntaf yn eu lle erbyn 31 Mawrth 2004.

7. Mae'r rheoliadau drafft yn debygol o fod yn agored i fân welliannau drafftio ychwanegol gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Fodd bynnag ni ddylai'r drafft terfynol, a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad llawn o fis Mehefin i Awst, fod yn wahanol iawn i'r fersiwn sy'n cael ei drafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Amserlen**

8. Y prif gamau a argymhellaf yw:

i. Adolygu Rheoliadau arfaethedig drafft yng ngoleuni safbwyntiau'r Pwyllgor, ac yna byddant yn agored i ymarfer ymgynghori o wyth wythnos o 28 Mehefin tan 23 Awst;
ii. Yn dilyn archwiliad manwl o ymatebion i'r ymgynghoriad ac ar ôl cynnwys unrhyw welliannau a gynigir, cyflwynir y Rheoliadau drafft i'r Pwyllgor Busnes ar 15 Hydref ac i'r Pwyllgor Deddfau ar 17 Rhagfyr;
iii. Mae dadl wedi'i threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 23 Ionawr;
iv. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2003.

**Camau i'w Cymryd**

9. Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y rheoliadau drafft arfaethedig.

**JANE HUTT**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mai 2002**

Cyswllt: Lynne Hamilton (Ffôn: 029 20681388)